Gorffennaf 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Ein Rhaglen Waith – 2019-20

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Bob blwyddyn, rydym yn cyhoeddi adroddiadau ar y materion pwysig sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Ystyriwn barn y pobl sy'n gweithio o fewn y sector cyhoeddus a chydag ef yn ogystal â phobl Cymru – fel y gallant helpu i lunio ein harchwiliadau yn y dyfodol.

Dyma amlinelliad o'n gwaith ar y gweill presennol a gwaith arall yr ydym yn bwriadu ei wneud yn ystod eleni.



# Gwaith ar y gweill

## Y Gronfa Gofal Integredig

Bydd ein hadolygiad traws-sector yn ystyried pa un a yw'r Gronfa Gofal Integredig yn cael ei defnyddio yn effeithiol i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth.

## Gwella llesiant pobl ifanc

Byddwn yn darparu trosolwg o dueddiadau perthnasol a'r gwersi allweddol i Lywodraeth Cymru eu dysgu yn seiliedig ar ein hadolygiad o faterion – gan gynnwys rhieni ifanc, gofalwyr sy'n oedolion ifanc, digartrefedd, iechyd meddwl, swyddi a sgiliau.

## Gwasanaethau gofal sylfaenol

Yn dilyn ein hadroddiad Darlun o Ofal Sylfaenol yn 2018, rydym wedi ystyried pa un a yw byrddau iechyd mewn sefyllfa dda i weithredu'r weledigaeth strategol ar gyfer gofal sylfaenol ac yn paratoi crynodeb genedlaethol o'n canfyddiadau.

## Gwelliant i ffordd yr A465 (Adran 2)

Rydym yn ymgymryd â'r gwaith hwn yng nghyd-destun pryderon ehangach am wario gormod a mynd dros yr amser a neilltuwyd. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad 'canfyddiadau interim' cychwynnol.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Bydd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â pherfformiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus fel cyfryngau ar gyfer gwella llesiant dinasyddion.

## Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried pa un a yw awdurdodau lleol yn cydweithredu'n effeithiol â'u partneriaid i atal trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig.

## Codio clinigol y GIG

Rydym yn archwilio trefniadau codio clinigol cyrff y GIG, gan gynnwys adolygiad o gynnydd o ran gweithredu argymhellion a nodwyd yn ein hadroddiadau archwilio lleol ar y pwnc hwn yn 2014.

## Trefniadau llywodraethu ansawdd mewn cyrff GIG

Bydd y gwaith hwn yn archwilio trefniadau llywodraethu ansawdd yng nghyrff y GIG, gyda phwyslais ar y trefniadau sy'n sail i waith pwyllgorau ansawdd a diogelwch.

Ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, byddwn yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ar adolygiad ar y cyd yn dilyn ymlaen o bryderon diweddar am wasanaethau mamolaeth.

## Prosesau pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer gofal cymdeithasol

Rydym yn asesu pa un a yw prosesau pwynt cyswllt cyntaf awdurdodau lleol yn diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Trefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol

Byddwn yn archwilio pa un a yw GIG Cymru wedi gweithio ar y cyd i fynd i'r afael â phroblemau a nodwyd trwy waith archwilio lleol blaenorol yn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## Rhaglen cael gwared ar asbestos yn Ysbyty Glan Clwyd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Rydym yn ystyried sut y mae'r rhaglen cael gwared ar asbestos yn yr ysbyty wedi cael ei llywodraethu a'i rheoli, gan ystyried swyddogaethau priodol y Bwrdd Iechyd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

## Gwasanaethau orthopedig

Yn dilyn ein hadroddiad yn 2015, rydym yn archwilio pa un a yw argymhellion archwiliadau blaenorol wedi cael eu gweithredu. Mae ein pwyslais ar wasanaethau dewisol ond rydym hefyd yn ystyried effaith galw brys/heb ei gynllunio.

## Llesiant cenedlaethau'r dyfodol

Rydym yn parhau â'n gwaith i gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Byddwn yn archwilio ac yn adrodd i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus perthnasol wedi gweithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' wrth bennu a chymryd camau i fodloni 'amcanion llesiant'.

## Masnacheiddio mewn awdurdodau lleol

Bydd y gwaith hwn yn ystyried pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol o ran datblygu a rheoli cyfleoedd masnachol a thystiolaeth o effaith y gweithgareddau hynny.

## Effaith cyni cyllidol ar wasanaethau dewisol awdurdodau lleol

Bydd y gwaith hwn yn ystyried maint y newidiadau yn y ddarpariaeth ddewisol a pha un a oes gan gynghorau ddull effeithiol i benderfynu sut i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol.

# Gwaith wedi ei gynllunio ar gyfer y dyfodol

### Darlun o wasanaethau cyhoeddus

Bydd y gwaith hwn yn cynnig sylwadau ar heriau ariannol ac eraill sy’n wynebu gwasanaethau cyhoeddus datganoledig trwy gyfres o wahanol allbynnau, ar ôl dechrau trwy gyhoeddi dull data cyllid y GIG ym mis Mehefin 2019.

### Brexit

Yn dilyn ein hadroddiad o fis Chwefror 2019, byddwn yn bwrw ymlaen â rhagor o waith i ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn ymateb i oblygiadau, risgiau a chyfleoedd Brexit.

### Atal twyll a llygredd

Yn dilyn adroddiad trosolwg ym mis Mehefin 2019 ar gyfer Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, rydym yn debygol o fwrw ymlaen â rhagor o waith i ystyried yn fwy manwl effeithiolrwydd trefniadau cyrff cyhoeddus.

### Gweinyddu cyllid myfyrwyr

Byddwn yn archwilio materion yn ymwneud â gweinyddu cyffredinol y system cyllid myfyrwyr, gan gynnwys gweithredu’r trefniadau newydd a gyflwynwyd o fis Medi 2018 a modelu Llywodraeth Cymru o ad-daliadau yn y dyfodol.

### Tlodi tanwydd / effeithlonrwydd ynni

Bydd y gwaith yma’n edrych ar gynnydd wrth fynd i’r afael â thlodi tanwydd a rhai o’r prif heriau sy’n wynebu Llywodraeth Cymru wrth iddo ddatblygu cynllun tlodi tanwydd newydd i’w ymgynghori ag ef yn yr Hydref.

### Gweithlu Llywodraeth Cymru

Byddwn yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru yn cynllunio ac yn rheoli ei gweithlu yng ngoleuni’r amgylchedd newidiol y mae’n gweithredu ynddo.

### TGCh Llywodraeth Cymru

Bydd y gwaith hwn yn ystyried penderfyniad Llywodraeth Cymru i wneud ei wasanaeth TG craidd yn un mewnol o ddechrau 2019, gan gynnwys costau a buddion disgwyliedig ac i ba raddau y mae’r trefniadau newydd yn cyflawni yn unol â disgwyliadau.

### Cydnerthedd digidol

Byddwn yn ystyried sut y mae cyrff cyhoeddus yn sicrhau bod eu systemau TG yn gydnerth, yn gadarn ac yn ddiogel fel y gellir adfer systemau yn gyflym os bydd digwyddiadau difrifol, ac y gellir parhau i redeg gwasanaethau.

### System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS)

Byddwn yn asesu effeithiolrwydd y trefniadau gweithredu cenedlaethol a lleol ar gyfer y WCCIS ac yn archwilio pa un a yw'r buddsoddiad hyd yn hyn wedi cynnig gwerth am arian.

### Cynaliadwyedd ariannol mewn llywodraeth leol

Bydd y gwaith hwn yn archwilio strategaeth ariannol tymor canolig a thymor hwy, rheolaeth cyllideb, pwysau costau, cynlluniau effeithlonrwydd ac arbedion, a lefelau a defnydd cronfeydd wrth gefn ar draws pob awdurdod lleol.

### Rheoli grantiau

Byddwn yn myfyrio ar sut y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rheoli newidiadau i gynlluniau grant yn rhan o olwg ehangach ar sut y mae trefniadau rheoli grantiau wedi datblygu ers ein hadroddiad yn 2011.

### Amseroedd aros y GIG

Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar ein hadroddiad o 2015 i gymryd golwg ar gynnydd o ran amseroedd aros dewisol a sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ymateb i'n hargymhellion. Bydd hyn hefyd yn cysylltu â'n gwaith parhaus ar wasanaethau orthopedig.

### Cyflenwi pan fydd athrawon yn absennol

Rydym yn bwriadu gwneud gwaith dilynol ar ddatblygiadau ers ein hadroddiad o 2013, gan gynnwys gwaith mewn ymateb i adroddiad y Tasglu Model Cyflenwi Gweinidogol o 2017.

Os oes gennych unrhyw sylwadau ar y pynciau, gallwch eu rhannu gyda ni trwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Os oes gennych bryderon penodol am y modd mae gwasanaeth, prosiect, rhaglen neu sefydliad yn cael ei redeg ar hyn o bryd yna cyfeiriwch at yr adran ar godi pryderon ar ein gwefan.

Mae ein hysbysiad preifatrwydd yn dweud wrthych beth i'w ddisgwyl pan fyddwch yn cysylltu â'r Archwilydd Cyffredinol neu Swyddfa Archwilio Cymru

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk